Arian Grant i drigolion y Betws

Mae Cyngor Cymunedol y Betws wedi derbyn dwy grant. Un i ddenu mwy o fywyd gwyllt i barc y Betws a’r llall i adnewyddu peth o’r offer ym mharc chwarae Maescwarre.

Bydd grant o £86,750 gan Gronfa Lleoedd Lleol i Natur gan y Loteri Dreftadaeth Genedlaethol a Llywodraeth Cymru yn hybu bioamrywiaeth ym Mharc y Betws.

Diolch i’r cyllid, bydd perllan a choetir o lwyni coed brodorol gyda bwydydd mewn gwelyau uchel yn cael eu creu. Bydd dol yno a chyfle i fobol i chwilota.
Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys symud a gwaredu tua 2000m2 o darmacadam o ardal y cwrt tennis.

Bydd pridd yn cael ei gludo a'i wasgaru a bydd tua 200 metr o lwybrau troed graean yn cael eu hadeiladu.

Ar Faes Chwarae Maescware, mae arian grant Fferm Wynt Mynydd Y Betws yn mynd i gael ei ddefnyddio i adnewyddu peth o'r offer chwarae gan y cwmni Emroch.

‘Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol’

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**